

## YMARFER 2 i'r Saesneg: Sylwadau

Mae deiseb ag arni dros ddeg mil o enwau wedi galw am ddileu'r cynlluniau dadleuol i gael cerflun 'cylch haearn' ger Castell y Fflint<sup>1</sup>, gan y byddai'n symbol o orthrwm Lloegr dros Gymru<sup>2</sup>.

Mae'r ymateb hwn fel petai'n dangos nad oes cysylltiad rhwng barn y rhai sy'n penderfynu a barn y bobl<sup>3</sup>, ac mae'r Llywodraeth wedi gwrandao a chydabod gwres teimladau pobl drwy oedi ac adolygu'r cynlluniau<sup>4</sup>.

Bwriad gwreiddiol y cerflun oedd cynrychioli'r berthynas rhwng teuluoedd brenhinol yr oesoedd canol a'r cestyll a godwyd ganddynt - Castell y Fflint oedd un o'r cestyll cyntaf a godwyd gan Edward I yng Nghymru.<sup>5</sup>

Yn ôl y penseiri a gynlluniodd y cerflun, y bwriad oedd dangos "natur ansefydlog y goron".<sup>6</sup> Ond yn ôl y rhai sydd wedi beirniadu'r cynllun, "y cylch o haearn" oedd yr enw a roddwyd i'r gadwyn o gestyll ar draws Cymru - cestyll a adeiladwyd yn benodol er mwyn darostwng y Cymry.<sup>7</sup>

Yn ôl yr hanesydd Dr Elin Jones, mae'r cyfan yn dangos anwybodaeth ddybryd ynghylch hanes Cymru<sup>8</sup>, a dywedodd "Mae'r ffaith bod Cadw heb amgyffred y byddai'r cynllun yn cael ei ddehongli fel sarhad yn dangos nad ydynt yn ymwybodol o deimladau'r Cymry am eu gwlad."<sup>9</sup>

Barn arall a fynegwyd, fodd bynnag, oedd y gallai'r cerflun gynrychioli ysbryd y Cymry gan ei fod yn portreadu methiant Edward I i amgylchynu Cymru â chylch o haearn,<sup>10</sup> a dywedodd llefarydd ar ran Cadw fod "celf yn rhannu barn, yn annog trafodaeth ac yn rhywbeth y gellid ei ddehongli mewn sawl ffordd".<sup>11</sup>

[addasiad o erthygl ar wefan *BBC Cymru Fyw*]

### 1. Mae deiseb ag arni dros ddeg mil o enwau wedi galw am ddileu'r cynlluniau dadleuol i gael cerflun 'cylch haearn' ger Castell y Fflint

#### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *A petition containing over ten thousand names has called for the controversial plans to have the 'iron ring' sculpture near Flint Castle abolished*
2. *A petition which includes over ten thousand names has called upon the controversial plans to erect an 'iron circle' sculpture near Flint Castle to be abolished*
3. *A petition amassing over ten thousand signatures has called to cancel the controversial plans to build the 'iron ring' statue near to Flint Castle*

#### Cyfieithu llwyddiannus:

1. *A petition with over ten thousand names has called for controversial plans for an 'iron ring' sculpture near Flint Castle to be scrapped*
2. *A petition with over ten thousand signatures has called for controversial plans for an iron ring sculpture near Flint Castle to be abandoned,*

3. *A petition containing over ten thousand names has called for the abolition of contentious plans to erect an 'iron circle' sculpture near Flint Castle.*

SYLWADAU:

1. Nid yw gwir ystyr brawddeg Afl.1 yn glir o gwbl. Mae'n awgrymu mai galw am ddileu'r cerflun y mae'r ddeiseb, yn hytrach na'r cynlluniau. Byddai ychwanegu'r geiriau 'to be [abolished]' ar y diwedd yn egluro'r ystyr. Mae Afl.2 ac Afl.3 yn defnyddio cystrawen anghywir. Ymgais Afl.2 yw *has called upon the... plans... to be abolished* yn lle 'has called for the... plans... to be abolished' ac mae Afl.3 yn defnyddio *has called to cancel the... plans* yn lle 'has called for the cancellation of the... plans' neu 'for the... plans... to be cancelled'. Weithiau wrth gyfieithu brawddeg weddol hir a chymhleth mae'n hawdd mynd i'r gors wrth geisio meddwl am yr holl wahanol elfennau ar unwaith. Mewn achos felly mae'n werth ceisio datgymalu'r frawddeg er mwyn sicrhau bod y gwahanol elfennau'n cydlynu'n gywir. Pe bai'r ymgeiswyr aflwyddiannus wedi canolbwyntio i ddechrau ar '**mae deiseb... wedi galw am ddileu'r cynlluniau**' mae'n debygol iawn y byddent wedi llunio cystrawen gywirach. Sylwn wrth graffu ar y brawddegau llwyddiannus fod dwy gystrawen yn bosib. Dylai cyfieithwyr gadw mewn cof y ceir enw yn aml yn Saesneg lle byddai'r Gymraeg yn defnyddio berf.

'A petition .... has called for controversial plans... to be abolished/withdrawn/scrapped/dropped.'

'A petition... has called for the abolition/withdrawal/scrapping/dropping of controversial plans...'

2. Fel y gwelir uchod mae nifer o ffyrdd posib o gyfieithu'r gair '**dileu**' a byddai 'abolish/abolition'; 'abandon/abandonment'; 'withdraw/withdrawal'; 'scrapping'; 'cancel/cancellation' i gyd yn gwneud y tro. Rhaid pwysleisio pa mor bwysig yw hi i gyfieithwyr ddarllen yn helaeth yn y ddwy iaith er mwyn gallu trin cystrawennau'n hyderus a bod â geirfa helaeth at eu defnydd.

3. **deiseb ag arni dros ddeg mil o enwau.** 'Signatures' yw'r gair a ddefnyddir yn draddodiadol yn Saesneg am fod deisebau tan yn ddiweddar wedi cael eu casglu ar bapur yn unig a'r llofnod yn dilysu hunaniaeth yr unigolyn. Erbyn hyn a chynifer o ddeisebau yn cael eu cynnal ar y we, mae 'names' a 'signatures' yn cael eu cyfrif yn gywir. Y ffordd orau o gyfieithu '**ag arni**' yw 'with'. Nid oes gwir angen geiriau fel 'amassing'/'totalling'. Ni ddylai cyfieithwyr ychwanegu geiriau oni bai eu bod yn egluro'r ystyr neu'n gwneud y gystrawen yn fwy llyfn.

4. **i gael cerflun 'cylch haearn'.** Nodwyd eisoes fod ymgais Afl.1 yn aneglur a rhan o'r rheswm am hyn yw bod '**cael**' wedi ei gyfieithu fel *have* ac mae'n awgrymu felly mai dileu'r cerflun yn hytrach na'r cynllun yw'r ystyr. *To have the iron ring sculpture... abolished.* Rhaid cofio bod '**cael**' yn air a ddefnyddir yn helaeth yn Gymraeg a bod iddo lu o ystyron. Dim ond un ohonynt yw 'have', a chan fod 'have' hefyd yn cael ei ddefnyddio yn Saesneg mewn cystrawen fel 'to have something done', nid hwnnw yw'r dewis gorau yma. Yma, gellid bod wedi hepgor y gair yn llwyr e.e. *controversial plans for an iron ring sculpture* neu ddefnyddio berf addas fel 'erect', 'place', neu 'locate'. (Nid yw ymgais Afl.3, sef *build* yn gweithio cystal gan nad yw cerfluniau haearn fel rheol yn cael eu 'hadeiladu'.) Mae Afl.1 hefyd yn defnyddio'r fannod bendant *the iron ring sculpture* sy'n ychwanegu at y diffyg eglurder.

Mae Afl.3 wedi cyfieithu '**cerflun**' fel 'statue' a phe bai cyfeiriad yma at gerflun o berson (neu anifail) byddai hynny'n gywir ond gan mai '**cylch haearn**' yw'r disgrifiad o'r 'cerflun' mae'n amlwg mai 'sculpture' sydd dan sylw. Rhaid cofio un egwyddor hanfodol bwysig wrth gyfieithu, ei bod yn bosib i un gair yn yr iaith wreiddiol gyfateb i fwy nag un gair yn yr iaith darged, neu fel arall. Gall y gair Cymraeg 'cerflun' gyfeirio at 'statue' neu 'sculpture' felly mae'n bwysig iawn bod y cyfieithydd yn dehongli ystyr y gair yn ei gyd-destun. Hawdd wrth wneud

papur arholiad yw canolbwyntio ar y brawddegau neu'r cymalau unigol ond rhaid edrych ar y testun cyfan. Yn arholiadau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru neilltuir y pum munud cyntaf i'r ymgeiswyr ddarllen y papur cyn dechrau cyfieithu ac mae'n bwysig bod pob ymgeisydd yn treulio o leiaf bum munud yn gwneud hynny er mwyn deall yr ystyr gyffredinol a'r cywair.

## 2. ...gan y byddai'n symbol o orthrwm Lloegr dros Gymru.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...as it would be a symbol of England's oppression over Wales.*
2. *...as this would be seen as a symbol of England's oppression of Wales.*
3. *...as it is a symbol of England's oppression over Wales.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...as it would be a symbol of England's oppression of Wales.*
2. *...as it would symbolize English oppression of Wales.*
3. *...as it would be a symbol of Wales' oppression by England.*

SYLWADAU:

1. 'Of', nid 'over' yw'r arddodiad cywir i'w ddefnyddio ar ôl 'oppression', neu gellir troi'r ymadrodd ar ei ben fel LI.3 – *Wales' oppression by England*. Mae Afl.2 wedi ychwanegu geiriau diangen *as this would be seen as*.
2. Mae Afl.3 wedi defnyddio *it is* i gyfieithu '**gan y byddai**'. Dan bwysau arholiad mae'n hawdd gwneud gwall elfennol fel hyn ond gwylwch y pethau bychain!

## 3. Mae'r ymateb hwn fel petai'n dangos nad oes cysylltiad rhwng barn y rhai sy'n penderfynu a barn y bobl,

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *This response shows as if there is no relation between the opinion of those who have the right to decide upon such matters and the people's opinion,*
2. *It's as if this response shows a lack of correlation between the view of decision makers and the views of the people,*
3. *This response shows that it's as though there's not a connection between the view of those who make decisions and the view of the people,*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *This response appears to show that there is no connection between the opinion of the decision-makers and the opinion of the people,*
2. *This response seems to show a disconnection between the views of decision-makers and public opinion,*
3. *This response appears to show a divide between the opinions of decision-makers and the people,*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1, Afl.2 ac Afl.3 wedi ceisio cyfieithu '**Mae'r ymateb hwn fel petai'n dangos**' yn llythrennol heb ddeall ei ystyr.
2. **nad oes cysylltiad rhwng**. Mae LI.1, LI.2 a LI.3 yn dangos bod modd i gyfieithydd ddilyn patrwm y Saesneg - h.y. berf negyddol + enw cadarnhaol neu ddefnyddio enw negyddol yn unig os yw hynny'n gweithio'n well. Mae cynnig

Afl.1 *no relation* yn iawn hefyd. Mae cynnig Afl.2 *a lack of correlation* yn enghraifft o gywair amhriodol, oherwydd mae 'correlation' yn cael ei ddefnyddio fwyaf ym meysydd ystadegau a data.

3. **y rhai sy'n penderfynu.** Yma mae Afl.1 yn gor-gyfieithu h.y. yn ychwanegu ystyr nad yw yn y gwreiddiol *those who have the right to decide upon such matters*. Byddai 'those who make the decisions' yn dderbyniol ond mae cynigion Ll.1 a Ll.2 yn rhagori am eu bod yn defnyddio'r ymadrodd Saesneg cryno *decision-makers*.

4. **...ac mae'r Llywodraeth wedi gwrandao a chydabod gwres teimladau pobl drwy oedi ac adolygu'r cynlluniau.**

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *...and the Government have listened and acknowledged people's discontent by postponing and reviewing the plans.*
2. *...and the Government has listened and acknowledged the heated feelings of the people by pausing and revising the plans.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and the Government has listened and acknowledged the intensity of public feeling by postponing and reviewing the plans.*
2. *...and the Government has listened and acknowledged the strength of people's feelings by putting the plans on hold and reviewing them.*

SYLWADAU:

1. Yng nghynnig Afl.1 nid yw'r ferf *have listened* (lluosog) yn cytuno â'r goddrych *Government* (unigol).
2. Nid yw *people's discontent* (Afl.1) yn gyfieithiad manwl gywir o '**gwres teimladau pobl**'. Mae *the heated feelings of the people* (Afl.2) ychydig yn glogyrnaidd ac nid oes bannod bendant yn y Gymraeg. Gwell fyddai 'people's heated feelings'. Sylwch ar y cynigion llwyddiannus sy'n defnyddio ymadroddion naturiol fel *the intensity of public feeling* a *the strength of people's feelings*. Sylwch hefyd ar y defnydd o *public* i gyfieithu '**y bobl**'.
3. Mae cynnig Afl.2 *pausing* am '**oedi**' yn swnio'n annaturiol yn Saesneg. Gwell defnyddio 'delaying', 'halting' neu 'postponing' neu gynnig ardderchog Ll.2 *putting the plans on hold*.
4. Nid yw defnydd Afl.2 o *revising* i gyfieithu '**adolygu**' yn gywir. Yn Gymraeg defnyddir 'diwygio cynllun' am 'revise a plan', hynny yw, newid manylion y cynllun, ond yn y fan hon yr ystyr yw pwyso a mesur y cynllun yn gyffredinol er mwyn newid os bydd angen, neu ei ddileu hyd yn oed. Gwraidd y dryswch yw bod 'adolygu' yn cael ei ddefnyddio hefyd i olygu 'to revise for an examination' lle mae 'revise' yn golygu 'edrych dros eich gwaith'.

5. **Bwriad gwreiddiol y cerflun oedd cynrychioli'r berthynas rhwng teuluoedd brenhinol yr oesoedd canol a'r cestyll a godwyd ganddynt - Castell y Fflint oedd un o'r cestyll cyntaf a godwyd gan Edward I yng Nghymru.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *The original idea of the sculpture was to represent the relationship between the royal families of the middle ages and the castles built by them – Flint Castle was one of the first castles raised by Edward I in Wales.*

2. *The original intention was that the sculpture would represent the relationship between the royal families of the Middle ages and the castles that they had raised – Flint Castle was one of the first castles to be raised in Wales by Edward I.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The sculpture was originally intended to represent the relationship between mediaeval royal families and the castles built by them – Flint Castle was one of the first castles erected by Edward I in Wales.*
2. *The original intention of the sculpture was to represent the relationship between royal families of the middle ages and the castles erected by them – Flint Castle was one of the first castles built by Edward I in Wales.*
3. *The sculpture's original purpose was to represent the relationship between the royal families of the middle ages and the castles they built – Flint Castle was one of the first castles to be built by Edward I in Wales.*

SYLWDAU:

1. Mae Afl.1 yn defnyddio *idea* i gyfieithu '**bwriad**' ac er y gellid dadlau ei fod yn weddol agos ati, gwell bod yn fanwl gywir a defnyddio gair fel 'intention' neu 'purpose'.
2. Gall y gair '**codi**' olygu 'raise' ond yn y cyd-destun hwn 'build'/'erect' yw'r cyfieithiad cywir. Ni fyddai neb yn dweud yn Saesneg 'I raised a new house' (er bod yr ymadrodd 'barn-raising' yn awgrymu bod y gair wedi ei ddefnyddio felly ar un cyfnod).
3. **y cestyll a godwyd ganddynt.** Mae'r Gymraeg yn gwneud mwy o ddefnydd o'r goddefol/amhersonol na'r Saesneg ac mewn rhai achosion mae'n well troi'r ferf oddefol yn ferf weithredol. Yn y fan hon mae'r ddwy ffurf yn gweithio 'the castles built by them'/'the castles they built'. Mae'r ferf 'codwyd' yn y gorffennol syml nid y gorberffaith felly nid yw ymgais Afl.2 yn gywir.
4. **gan Edward I yng Nghymru.** Sylwch fod Afl. 2 wedi defnyddio *in Wales by Edward I*. Pwynt bychan yw hwn ac yn yr achos hwn nid yw'n gwneud fawr o wahaniaeth i'r ystyr ond dylai cyfieithwyr ochel rhag newid trefn elfennau'n ddiangen wrth gyfieithu.

6. **Yn ôl y penseiri a gynlluniodd y cerflun, y bwriad oedd dangos "natur ansefydlog y goron".**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *According to the architects responsible for designing the sculpture, the aim was to show the "unsettled nature of the crown".*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *According to the architects who designed the sculpture, the intention was to show the "unstable nature of the crown".*

SYLWADAU:

1. **y penseiri a gynlluniodd y cerflun.** Sylwch fod y cyfieithiad aflwyddiannus wedi defnyddio *responsible for*. Nid oes angen ychwanegu at yr ystyr. Mae'r cynnig llwyddiannus *who designed* yn ddigonol.
2. Gall '**ansefydlog**' olygu 'unsettled' e.e. 'tywydd ansefydlog' – 'unsettled weather' ond yn y cyd-destun hanesyddol hwn 'unstable' yw'r dewis cywir.

7. **Ond yn ôl y rhai sydd wedi beirniadu'r cynllun, "y cylch o haearn" oedd yr enw a roddwyd i'r gadwyn o gestyll ar draws Cymru - cestyll a adeiladwyd yn benodol er mwyn darostwng y Cymry.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *But those criticising the plan argue that the 'ring of steel' was the name given to the chain of castles across Wales – castles that were built explicitly to subjugate Wales.*
2. *But according to some who've criticized the design, the 'ring of iron' was the name that was given to the series of castles built around Wales – castles which were built specifically in order to oppress the Welsh.*
3. *However, according to those who have criticised the scheme, "the circle of iron" was the name that was given to a chain of castles which extended throughout Wales – castles which were specifically built in order to subdue the Welsh people.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *But according to critics of the plan, the "iron ring" was the name given to the chain of castles across Wales – castles built specifically to subdue the Welsh.*

SYLWADAU:

1. **y rhai sydd wedi beirniadu'r cynllun.** Mae cynnig Afl.1 *those criticising the plan* yn gwbl gywir ond mae'r cynnig mwy cryno llwyddiannus *critics of the plan* yn rhagori. (Cymharwch 'decision-makers' uchod). Ond nid oes angen y gair *argue* yn Afl.1. Os edrychwn ar ymgais Afl.2 nid *some* yw '**y rhai**' ond 'those', ac nid *design* yw '**cynllun**' yn y cyd-destun hwn ond 'plan'. Yn aml defnyddir 'cynllun' yn Gymraeg i gyfieithu 'design' gan fod 'dyluniad'/'dylunio' yn air mwy technegol sy'n cyfeirio at gynllunio gweledol yn unig e.e. 'dylunydd y clawr'/'dylunydd ffasiwn' ond yn aml defnyddir 'cynllun'/'cynllunio' i gyfeirio at y maes hwn hefyd e.e. 'cynlluniau tŷ newydd'. Ond o'r cyd-destun mae'n amlwg nad beirniadu dyluniad y cylch haearn fel y cyfryw y mae'r beirniaid ond yr holl gysyniad.

2. **y cylch haearn.** Mae'r hanes hwn wedi bod yn y cyfryngau rai misoedd yn ôl. 'The iron ring'/'the ring of iron' a ddefnyddiwyd yn yr adroddiadau Saesneg. Mae'n bwysig bod cyfieithwyr yn darllen yn helaeth gan gynnwys y newyddion oherwydd wrth ymglyfarwyddo â'r hanes mae'n haws cyfieithu ac yn haws osgoi gwallau fel '*ring of steel*'.

3. **yr enw a roddwyd.** Nid oes gwir angen *the name that was given* (Afl.2 ac Afl.3) ac mae ychydig yn glogyrnaidd. Mae *the name given* yn ddigon. Yn yr un modd mae *castles built* yn ail hanner y frawddeg yn ddigon. Nid oes angen *castles which/that were built*. Yn Saesneg gall y rhangymeriad gorffennol ('given'/'built'/'shown' etc) sefyll ar ei ben ei hun mewn is-gymal.

4. **[y] gadwyn o gestyll.** Defnyddia Afl.2 y gair *series*, i gyfieithu '**cadwyn**'. Mae 'series' neu 'cyfres' yn Gymraeg, yn disgrifio nifer o bethau sy'n digwydd mewn trefn amsereddol ond nid dyna'r ystyr yma. Mae'r gair 'cadwyn' yn disgrifio'r cylch daearyddol o gestyll a godwyd o gwmpas y canolbarth a'r gogledd i gadw trefn ar y Cymry. Nid yw Afl.3 wedi sylwi ar y fannod bendant.

5. **ar draws Cymru.** Cestyll a godwyd yn y canolbarth a'r gogledd oedd y rhain ond ni fyddai modd gwirio'r ffaith hon mewn arholiad. Gwell felly gadw'n agos at y gwreiddiol 'across Wales'. Mae Afl.3 wedi ceisio ehangu'r ystyr a defnyddio *extended throughout Wales* sy'n creu brawddeg sy'n digwydd bod yn ffeithiol

anghywir. Cofiwch fod modd defnyddio troednodyn mewn achos felly i nodi ansicrwydd.

6. **yn benodol er mwyn darostwng y Cymry.** 'Specifically' yw'r cyfieithiad cywir o 'yn benodol', nid *explicitly* (sy'n golygu 'mewn modd agored'). *Subdue/subjugate* yw 'darostwng' yn Saesneg, nid *oppress* ('gorthrymu'). Sylwch mai *the Welsh* sy'n gywir ac nid *Wales*.

## 8. Yn ôl yr hanesydd Dr Elin Jones, mae'r cyfan yn dangos anwybodaeth dybryd ynghylch hanes Cymru

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *According to the historian, Dr Elin Jones, the whole thing shows a grave ignorance about the history of Wales.*
2. *According to the historian Dr Elin Jones, the matter displays atrocious ignorance in relation to Welsh history.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *According to historian Dr Elin Jones, all of this illustrates a staggering level of ignorance about Welsh history.*
2. *According to historian Dr Elin Jones the whole affair reveals a glaring ignorance when it comes to Welsh history.*

SYLWADAU:

1. **yr hanesydd Dr Elin Jones.** Yr arfer yn Saesneg pan enwir galwedigaeth rhywun o flaen eu henw yw peidio â defnyddio atalnod rhyngddynt a hepgor y fannod bendant o flaen yr elfen gyntaf e.e. 'First Minister Carwyn Jones' neu 'broadcaster John Humphreys'. Nid yw *the historian Dr Elin Jones* yn anghywir ond mae hepgor y fannod yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig o deithi'r Saesneg.

2. **y cyfan.** Mae Afl.1 yn defnyddio *the whole thing* sydd yn perthyn i gywair is, mwy llafar. *the matter* yw ymgais Afl.2 a byddai'r 'whole matter' neu 'the entire matter' yn well.

3. 'Of' yw'r arddodiad a ddefnyddir amlaf ar ôl 'ignorance' mewn cywair ysgrifenedig. Mae *about* yn gwneud y tro ond mae *in relation to* braidd yn glogyrnaidd. Mae ymgais Ll.2, *when it comes to* yn ddychmygus ac yn naturiol.

4. **Anwybodaeth ddybryd.** Gwelir o'r cyfieithiadau uchod fod sawl ffordd o gyfieithu 'dybryd'. Mae'r cysyniad o 'gyd-leoliad' yn un pwysig mewn astudiaethau iaith. Pa eiriau a welir amlaf gyda'i gilydd ac sy'n swnio'n fwyaf naturiol? Mae hyn yn bwysig iawn i gyfieithwyr wrth iddynt geisio llunio testun yn yr iaith darged heb flas cyfieithiad arno. Pa ansoddeiriau felly sy'n cyfieithu 'dybryd' ond a ddefnyddir amlaf gydag 'ignorance'? Mae pob un o'r ansoddeiriau uchod yn gyfieithiad cywir ond mae ansoddair fel *glaring* er enghraifft yn rhagori ar *atrocious* o ran ei naturioldeb yn y cyd-destun. Gellir defnyddio ymadrodd i gyfieithu ansoddair fel y gwna Ll.1 yn llwyddiannus iawn gydag *a staggering level of ignorance*.

5. **hanes Cymru.** Mae *the history of Wales* yn berffaith gywir ond rhaid cofio bod modd defnyddio *Welsh history* hefyd.

## 9. "Mae'r ffaith bod Cadw heb amgyffred y byddai'r cynllun yn cael ei ddehongli fel sarhad yn dangos nad ydynt yn ymwybodol o deimladau'r

## Cymry am eu gwlad.”

### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *“The fact that Cadw hadn’t considered that the design would be interpreted as an insult shows that they’re not aware of Welsh’s feelings for their country”.*
2. *“The fact that Cadw had not apprehended that the plan would be misconstrued as an insult shows that they are unaware of Welsh people’s feelings about their county.*

### Cyfieithu llwyddiannus:

1. *“The fact that Cadw did not grasp that the plan would be interpreted as an insult shows that they are not aware of Welsh people’s feelings for their country”.*
2. *“The fact that Cadw failed to realise that the plan would be interpreted as an insult shows that they are unaware of the feelings of the Welsh for their country.”*
3. *“Cadw’s failure to grasp that the plan would be construed as an affront shows that they aren’t aware of the Welsh people’s feelings towards their country”.*

### SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 wedi defnyddio *design* i gyfieithu ‘cynllun’ (gweler uchod).
2. ‘**Mae’r ffaith bod Cadw heb amgyffred**’. Mae defnyddio *the fact that...* i gyfieithu’r rhan hon o’r frawddeg yn gwbl dderbyniol ond mae Ll.3 wedi dangos cryn allu wrth grynhai ‘**Mae’r ffaith bod Cadw heb**’ yn ddau air yn Saesneg *Cadw’s failure*. Fel y nodwyd eisoes mae’r Saesneg yn aml yn defnyddio enw pan fydd berf yn y Gymraeg, ac fel arall.
3. Mae’r gystrawen ‘heb + berf’ yn Gymraeg yn gwbl dderbyniol ac yn osgoi gorfod defnyddio’r ffurf negyddol ar y ferf a all fod yn hirwyntog. Mae Ll.2 ar yr un trywydd â Ll.3 wrth ddefnyddio *failed* er mwyn osgoi’r un ymadrodd hirwyntog ‘The fact that Cadw did not’.
4. Ystyr ‘**amgyffred**’ yw ‘comprehend’/‘grasp’/‘understand’ nid *consider* (Afl.1) nac *apprehend* (Afl. 2).
5. Mae Afl.2 yn cyfieithu ‘**dehongli**’ – gair niwtral - fel *misconstrued* sy’n golygu ‘camddechongli’ – gair ag arlliw negyddol. Gwell fyddai defnyddio *interpreted* neu *construed*.

## 10. **Barn arall a fynegwyd, fodd bynnag, oedd y gallai’r cerflun gynrychioli ysbryd y Cymry gan ei fod yn portreadu methiant Edward I i amgylchynu Cymru â chylch o haearn,**

### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Another opinion expressed, however, was that the sculpture could represent the spirit of the people of Wales because it portrays the failure of Edward I to rule Wales with an iron fist.*
2. *However, another opinion expressed that the sculpture could represent the spirit of the people of Wales as it represents Edward 1’s failure to encircle Wales with an iron ring.*
3. *Others have argued however that the sculpture could represent the spirit of the Welsh, as it portrays how Edward 1 failed to surround Wales with an iron ring.*



Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Another opinion expressed, however, was that the sculpture could represent the spirit of the Welsh people because it portrays Edward I's failure to contain Wales within a ring of iron.*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 wedi camgyfieithu rhan olaf y frawddeg. Er bod 'to rule with an iron fist' yn idiom Saesneg naturiol a chyfarwydd nid yw'n cyfieithu ystyr y testun gwreiddiol yn gywir.
2. Mae Afl.2 yn defnyddio *represent* i gyfieithu 'cynrychioli' a 'portreadu'. Byddai'n well defnyddio dau air gwahanol. Mae Afl.2 yn defnyddio *expressed* heb 'was' sydd yn anghywir.
3. Mae Afl.3 yn defnyddio *Others have argued* i gyfieithu '**Barn arall a fynegydd**'. Mae gwahaniaeth rhwng 'mynegi barn' a 'dadlau' – mae'r ail yn gryfach na'r cyntaf. Gellir bod yn wreiddiol ac yn ddychmygus wrth gyfieithu ond rhaid i'r ystyr gyfateb yn union.
4. Mae Afl.1 ac Afl.2 yn defnyddio *the people of Wales* i gyfieithu '**y Cymry**'. Gwell bod yn fanwl gywir a defnyddio *the Welsh*.

11. ...a dywedodd llefarydd ar ran Cadw fod "celf yn rhannu barn, yn annog trafodaeth ac yn rhywbeth y gellid ei ddehongli mewn sawl ffordd".

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and a speaker said on behalf of Cadw that "art is something that polarises opinion, encourages debate and can be interpreted in a variety of ways".*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *A spokesperson for Cadw said that "art divides opinion, encourages discussion and is something that could be interpreted in many different ways".*

SYLWADAU:

1. **llefarydd ar ran Cadw.** Mae'r cyfieithiad aflwyddiannus yn cyfieithu '**llefarydd**' fel 'speaker' lle mae angen 'spokesman' neu, yn well fyth, *spokesperson*. Mae *on behalf of Cadw* yn gywir ond mae *for Cadw* yn fwy cryno.
2. **celf yn rhannu barn.** Mae'r cyfieithiad aflwyddiannus yn defnyddio *is something that*. Nid yw hyn i'w weld yn y gwreiddiol. Fel y nodwyd eisoes, dylai cyfieithwyr ochel rhag ychwanegu geiriau nad ydynt yn y gwreiddiol oni bai fod eu hangen i egluro ystyr neu i helpu llif y cystrawen. Mae hefyd yn defnyddio *polarises* i gyfieithu '**rhannu**' lle byddai *divide* yn fwy cywir. Mae'n bosib i bobl feddwl yn wahanol heb fynd i ddau begwn. Mae hyn yn enghraifft arall o ddefnyddio gair sy'n rhyf gryf (gweler y drafodaeth ar 'express an opinion'/'argue' uchod).
3. Mae cyfieithiad llwyddiannus wedi torri'r frawddeg yn ei hanner, a rhaid cofio bod hyn yn opsiwn posib os bydd cyfieithydd yn teimlo bod y frawddeg fel mae'n sefyll yn llafurus o hir.